Tasg 1

Bwyd iach

1. Beth ydy bwyd iach?
   Gwnewch restr.

2. Siaradwch mewn grŵp.

   Mae … yn iach (iawn).
   Dw i'n meddwl bod … yn iach.
   Dydy … ddim yn iach (iawn).
   Rhaid bwyta …

3. Darllenwch y gerdd eto.

   Atebwch y cwestiynau:
   a. Beth ydy'r bwyd iach yn y gerdd?
   b. Pwy sy'n hoffi'r bwyd yma?
   ch. Beth ydych chi'n feddwl o'r bwyd yma?
   d. Beth ydy'r bwyd afiach yn y gerdd?
   dd. Pwy sy'n hoffi'r bwyd yma?
   e. Beth ydych chi'n feddwl o'r bwyd yma?
   f. Pwy sy'n gywir – Nain neu'r person arall?
   ff. Beth ydych chi'n feddwl o'r gerdd?

4. Beth am ysgrifennu cerdd am **Hoff fwyd**?

Dw i'n hoffi bwyta …
Fy hoff fwyd i ydy …
Beth am …
Mae … yn wych / ffantastig / flasus.
Mae rhai pobl yn hoffi …
Ond mae'n well gen i …/
Mae'n well gyda fi …